trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 13
Medi 2009

Gwyddelod ar genhadaeth!

Yn aml, wrth feddwl am genhadu, mi fyddwn ni'n meddwl am fynd dros y môr i wledydd pell fel Affrica ac India, gwledydd rydan ni'n eu gweld ar y teledu. Ond i ddweud y gwir mi allwn ni genhadu yn unrhyw le – yng Nghymru, yn ein tref neu'n pentref ni, gyda phobl drws nesa.

Yn yr haf eleni, daeth tîm o bump o fyfyrwyr draw o Belffast ar genhadaeth bythefnos i weithio yn yr ysgolion, gyda grwpiau ieuenctid ac i helpu i sefydlu clwb gwyliau newydd yn Llŷn, gan gydweithio â Trobwynt. Mi gawson ni bythefnos wych. Bu'r tîm yn rannu eu tystiolaeth, yn cymryd gwasanaethau mewn ysgolion ac yn sôn am y gwahaniaeth roedd nabod Iesu wedi'i wneud i'w bywydau. Roedd yn amser ardderchog o dystiolaethu a helpu gyda'r gwaith rŷn ni'n ei wneud yn barod.

Mi gawson ni'r syniad pan soniodd ffrind i mi, Erika Frank, ei bod hi'n trefnu taith genhadol fel rhan o'i gwaith. Symudodd Erika i bentref Llangwnnadl ym Mhen Llŷn pan oedd yn yr ysgol gynradd. Roedden ni yn yr ysgol uwchradd gyda'n gilydd, yn mynd i'r un eglwys a grŵp ieuenctid ac rydan ni wedi gweithio gyda'n gilydd o'r blaen. Erbyn hyn mae hi'n gaplan cynorthwyol sy'n gweithio mewn cartref i fyfyr-wyr gyda'r Eglwys yn Iwerddon. Mae'n gyfrifol am les y myfyrwyr mewn tri thŷ, yn helpu gyda'r pregethu ac arwain gwasanaethau yn yr eglwys sy'n sownd wrth y tai ac mae'n trefnu ymgyrchoedd cenhadol ar gyfer y myfyrwyr, yn cynnwys rhai tramor a rhai ar stad dai gerllaw.

Bob haf mae'n trefnu taith genhadol. Maen nhw'n mynd i wlad dramor un flwyddyn ac i Brydain y flwyddyn wedyn. Y llynedd, mi fuon nhw am dair wythnos ym Mrasil, yn gweithio gydag eglwysi a phlant difreintiedig. Yno, mi welson nhw Duw yn gweithio ac yn symud mewn ffordd ryfeddol. Eleni, roedden nhw am ddod i Brydain ac fe soniodd Erika wrth John, fy ngŵr, a minnau, tybed a fyddai modd iddyn nhw ddod i weithio gyda Trobwynt. Mae John a minnau'n gweithio gyda Trobwynt, sef mudiad a gafodd ei sefydlu i helpu eglwysi a chapeli ardal Llŷn ac Eifionydd gyda'u gwaith ieuenctid. Rŷn ni'n gwneud hyn trwy helpu i sefydlu grwpiau ieuenctid a rhoi cymorth a chefnogaeth iddynt. Rŷn ni hefyd yn gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn arwain gwasanaethau, yn cymryd gwersi ac yn cynnal cyfarfodydd yn yr Undebau Cristnogol. Yn ogystal, rŷn ni'n trefnu gweithgareddau mwy o faint gan wahodd holl grwpiau ieuenctid yr ardal i ddod ynghyd ac i gefnogi ei gilydd.

Ar ôl gweddïo am y syniad, ei drafod gyda'r ymddiriedolwyr a meddwl beth allai'r tîm ei wneud, fe benderfynon ni symud ymlaen â'r cynllun. Yn y gorffennol, mae timau o America wedi dod draw atom ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn. Penderfynwyd cael y tîm draw rhwng 11 a 25 Gorffennaf. Un o'r pethau rŷch chi bob amser yn pryderu amdanyn nhw wrth drefnu rhywbeth fel hyn yw a fydd pobl yn dymuno bod yn rhan o'r ymgyrch.

.

Pan es i draw i Belffast i weld Erika ym mis Mai, roedden ni'n poeni am y rhifau achos roedd nifer o bobl yn ansicr a fydden nhw'n gallu dod ai peidio. Ond Duw sy'n rheoli'r rhifau, ac ar ôl rhyw ddau ddiwrnod, yn cyfarfod â'r myfyrwyr ac yn gweld gwaith Erika, roedd gennym ni bedwar o fyfyrwyr ac Erika. Roedd dau gyda ni am yr wythnos gyntaf, Gillian a Luke, a daeth dau arall, Neiller a John, at Luke ar gyfer yr ail wythnos ac aeth Gillian adref.

Mae'n wych cael mynd â thîm o gwmpas yr ysgolion. Mae'n gyfle prin ac yn gyfle i wneud pethau gwahanol. Yn yr ysgolion cynradd, mi roddon ni gyflwyniad o un o lyfrau Max Lucado, yn canolbwyntio ar ffitio i mewn a phwysau gan gyfoedion, gan fod blwyddyn 6 ar fin symud i'r ysgol uwchradd. Cafodd y plant gyfle i holi'r myfyrwyr am eu bywydau yn Iwerddon hefyd a chyfle i ddysgu ychydig o Wyddeleg. Yn yr ysgolion uwchradd, bu'r myfyrwyr yn sôn am eu bywyd yn Iwerddon a'r Trafferthion yn Iwerddon. Cafodd y plant gyfle i ddysgu tipyn o Wyddeleg ac i ddysgu ychydig o Gymraeg i'r myfyrwyr. Bu'r tîm yn siarad am eu ffydd hefyd ac yn dweud sut beth yw bod yn Gristion yn Iwerddon.

Yn ystod yr wythnos gyntaf, roedd cyfarfod ieuenctid bob nos, a chafodd holl grwpiau ieuenctid Llŷn ac Eifionydd eu gwahodd i un o'r rhain. Cawsant eu cynnal mewn mannau strategol ac roedd cyfle i chwarae gemau, dysgu a gwrando ar gerddoriaeth. Mae'n dda gweld pobl ifanc yn dod at ei gilydd. Ar y nos Wener, diwrnod ola'r tymor, cafwyd noson ieuenctid o'r enw Ut's a Noc Owt. Cafodd y grwpiau ieuenctid i gyd eu gwahodd ac fe ddaeth un tîm o'r tu allan i'r ardal hefyd. Roedd 48 o bobl ifanc a'u harweinwyr yno'r noson honno. Nid nifer yw'r peth pwysicaf ond mae'n wych gweld cymaint o bobl ifanc gyda'i gilydd yn cystadlu, yn mwynhau eu hunain ac yn clywed yr efengyl gan y tîm trwy ddrama, gemau, caneuon a thystiolaeth. Roedden nhw'n gwrando'n dda ac roedden ni wrth ein bodd o weld y noson mor llwyddiannus.

Yn yr ail wythnos, roedden ni'n helpu gyda chlwb gwyliau i blant yn Nhudweiliog. Cyflwyniad oedd hyn i glwb wythnosol a fydd yn cael ei sefydlu y tymor hwn. Thema'r wythnos oedd môr-ladron. Roedden ni'n mynd trwy bwyntiau sylfaenol yr efengyl trwy roi cyflwyniad dwy awr yn cynnwys tipyn o ddrama, caneuon, gemau, cystadlaethau cestyll tywod, dysgu adnodau, aerobeg, tystiolaeth a sgwrs. Roedd yn amser ardderchog. Mi dreulion ni bedwar o'r pum diwrnod ar y traeth – diolch i Dduw am y tywydd. Roedd pobl leol yn y tîm hefyd. Roedd hynny'n grêt ac yn golygu ein bod yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Mi gawson ni dîm iau hefyd, gyda nifer o bobl ifanc a ddaeth draw i helpu ac i gael profiad o weithio gyda phlant. Roedd yn gyfle gwych i roi hwb i'r tîm iau trwy dreulio amser gyda Christnogion ifanc eraill. Weithiau, gall fod yn anodd i bobl ifanc pan nad oes llawer o Gristnogion ifanc eraill o gwmpas.

Diolch i Dduw am y pythefnos a gawson ni gyda'n gilydd, yr anogaeth, a'r amser a'r ymdrech a roddodd y bobl ifanc o Iwerddon i weithio yn yr ardal hon. Mi roddon nhw bythefnos o'u gwyliau a chyfrannu'n ariannol i weithio gyda'r clwb plant yn Nhudweiliog. Rŷn ni'n cadw mewn cysylltiad â nhw ac yn brysur yn trefnu gweithgareddau'r flwyddyn nesaf. Gobeithio y daw'r myfyrwyr yn ôl yn yr haf neu cyn hynny.

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202